

2013 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cylchfan Abercynon, Rhondda
Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50
MYA) 2013**

Gwnaed 25 Ebrill 2013

Yn dod i rym 29 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 Caerdydd – Llangurig (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ebrill 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2013.
2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o gerbyttfordd y gefnffordd tua'r gogledd sydd i'r de o Gylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n ymestyn tua'r gogledd o bwynt sy'n 350 o fetrau i'r de o Gylchfan Abercynon ac sy'n cynnwys cerbyttfordd gylchredol gyfan y gylchfan honno, y darn cyfan o'r lôn ar wahân tua'r gorllewin a'r allanfa tua'r de oddi ar y gylchfan am bellter o 35 o fetrau.
3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2006(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 25 Ebrill 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2006/1159/Cy.114.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(CYLCHFAN ABERCYNON, RHONDDA
CYNON TAF) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA)
2013**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 29 Ebrill 2013.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder 50 mya ar y darn hwnnw o gerbyttfordd Cefnffordd yr A470 Caerdydd – Llangurig tua'r gogledd, sydd i'r de o Gylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac sy'n cynnwys cerbyttfordd gylchredol gyfan y gylchfan honno, y darn cyfan o'r lôn ar wahân tua'r gorllewin a'r allanfa tua'r de oddi ar y gylchfan am bellter o 35 o fetrau.

Yn ystod cyfnod o chwe wythnos o 26 Ebrill 2013, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Abercynon, Ynysmeurig Road, Abercynon, Rhondda Cynon Taf, CF45 4SU neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchymynion Traffig Parhaol', '2013').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru